OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 711 (Cy.78)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *10 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 55(3) a 118(6) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2004.

### Dehongli

**2.** Yn y rheoliadau hyn—

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "gweithiwr cymdeithasol o dan hyfforddiant" ("*student social worker*") yw person sy'n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan y Cyngor o dan adran 63 o'r Ddeddf i bersonau sy'n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol.

### Personau i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol

**3.**—(1) Mae gweithwyr gofal cymdeithasol o dan hyfforddiant i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at y diben a bennir ym mharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(2) Y diben yw cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol o dan hyfforddiant yn y gofrestr a gedwir gan y Cyngor o dan adran 56(1) o Ddeddf 2000.

(**1**) 2000 p. 14. Rhoddir y pwerau i'r "appropriate Minister" a ddiffinnir gan adran 121(1) o'r Ddeddf fel "the Assembly" mewn perthynas â Chymru. *Gweler* adran 5(b) o'r Ddeddf am y diffiniad o "the Assembly".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*John Marek*

10 Mawrth 2004

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p. 38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod gweithwyr cymdeithasol o dan hyfforddiant i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol at ddibenion cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru.